**Kirsty Williams AC/AM**
**Y Gweinidog Addysg**
**Minister for Education**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-05-925
Ein cyf/Our ref KW/00501/20

Janet Finch-Saunders AC
Cadeirydd, y Pwyllgor Deisebau
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

23 Mawrth 2020

Annwyl Janet,

**Deiseb P-05-925 Addysgu Llesiant Mislifol mewn Ysgolion: Peidio â Gadael Cymru Ar Ôl**

Diolch am eich llythyr dyddiedig 12 Mawrth mewn perthynas â'r ddeiseb uchod, sydd yn cael ei hystyried gan y Pwyllgor ar hyn o bryd.

Mae fframwaith y Cwricwlwm i Gymru yn rhoi'r cyfle i bod ysgol lunio a mabwysiadu eu cwricwlwm eu hunain. Mae'n annog ysgolion i lunio'u gweledigaeth eu hunain ar gyfer eu dysgwyr o fewn cyd-destun y pedwar diben a'r dysgu a ddiffinir ar lefel genedlaethol.

Bydd gan ysgolion yr hyblygrwydd i ddewis y cynnwys sy'n bodloni orau anghenion eu dysgwyr nhw yn eu cyd-destun penodol nhw. Bydd gan ddysgwyr amrywiaeth o anghenion a chefndiroedd. Yn ogystal â'r testunau penodol a addysgir, y gweithgareddau a gynhelir, a'r cyd-destunau perthnasol, mae'r Fframwaith yn cynnig y gallu i ysgolion ac ymarferwyr ddewis y profiadau, yr wybodaeth a'r sgiliau sy'n cefnogi orau anghenion eu dysgwyr o fewn y fframwaith hwnnw.

O fewn Maes Dysgu a Phrofiad (MDPh) Iechyd a Lles yn enwedig, mae'n bwysig bod digon o hyblygrwydd i gefnogi dysgwyr. Mae'r 'disgrifiadau dysgu' yn y canllawiau ar gyfer pob MDPh yn cynnwys dysgu allweddol a manylion sut y dylai dysgwyr wneud cynnydd wrth deithio ar hyd y continwwm dysgu. Mae 'Disg,rifiad Dysgu' o dan 'Mae datblygu iechyd a lles y corff yn arwain at fuddiannau gydol oes', sef un o'r Datganiadau o'r Hyn sy'n Bwysig yn ymdrin yn benodol â galluogi dysgwyr i "…adnabod y cysylltiad rhwng y newidiadau corfforol ac emosiynol sy'n gallu digwydd mewn gwahanol gyd-destunau." O fewn y disgrifiad dysgu hwn, mae dysgwyr yn cael

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA
Gohebiaeth.Kirsty.Williams@llyw.cymru
Correspondence.Kirsty.Williams@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

eu cefnogi i ddatblygu eu dealltwriaeth ar hyd y continwwm dysgu er mwyn iddynt allu nid yn unig ddeall ac adnabod y cysylltiadau rhwng y newidiadau corfforol ac emosiynol sy'n digwydd ond hefyd allu Mae 'Mae datblygu iechyd a lles y corff yn arwain at fuddiannau gydol oes', sef un o'r Datganiadau o'r Hyn sy'n Bwysig hefyd yn cynnwys disgrifiad dysgu sy'n galluogi dysgwyr i "adnabod rhai mathau o ymddygiad, cyflyrau a sefyllfaoedd sy'n effeithio ar fy iechyd a lles corfforol, ac rwy'n gwybod sut i ymateb a chael cymorth mewn ffordd ddiogel." Bydd gwneud cynnydd ar hyd y continwwm hwn yn ei gwneud yn bosibl i ddysgwyr ddatblygu gwybodaeth a dealltwriaeth o sut i reoli ymddygiad a chyflyrau.

O fewn y disgrifiadau hyn, mae ysgolion yn cael rhyddid i addysgu am laslencyndod a'r mislif ar oedran sy'n addas o ran datblygiad. Gallant hefyd roi'r wybodaeth a'r hyder i ddysgwyr i chwilio am gefnogaeth a chymorth i ymdrin â'r newidiadau corfforol ac emosiynol sy'n digwydd gydol bywyd.

Fel rhan o'r canllawiau, sydd newydd gael eu cyhoeddi, rydyn ni hefyd yn eglur y bydd aeddfedu yn cael effaith bwysig ar iechyd a lles dysgwyr, a dylai lleoliadau ac ysgolion ystyried sut y byddant yn cefnogi dysgwyr i ddeall ac i reoli newidiadau yn eu datblygiad, yn ogystal â'r amrywiaeth o ffyrdd y mae'r newidiadau hynny yn cael effaith ar ddysgwyr.

Rydw i'n gobeithio bod hyn yn egluro'r sefyllfa.

Yn gywir

**Kirsty Williams AC/AM**
Y Gweinidog Addysg
Minister for Education